

Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru Mehfin 2020

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ymgynghoriadau a chynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein [calendr i ddod](#).

Ymateb i'r Coronafeirws (COVID-19)

Rydym wedi gorfod newid ein gweithrediadau arferol i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi ymateb y llywodraeth i bandemig y Coronafeirws, ynghyd â darparu'r wybodaeth angenrheidiol lle mae ei hangen fwyaf. [Mae'r datganiad hwn yn nodi ein dull gweithredu.](#)

Rydym wedi datblygu a chyhoeddi setiau data a datganiadau wythnosol newydd i hysbysu'r cyhoedd yn ystod y pandemig. Mae'r rhain i gyd ar gael ar ein tudalen [Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â Coronafeirws \(COVID-19\)](#). Mae'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata ar y canlynol:

- Gweithgarwch a chapasiti'r GIG;
- Hysbysiadau o farwolaethau mewn cartrefi gofal;
- Presenoldeb mewn lleoliadau awdurdod lleol ar gyfer plant;
- Arolygon o farn ac ymddygiadau;
- Gwybodaeth reoli am brofi, parseli bwyd, cymorth i fusnesau ac unigolion.

Yn ogystal, cyhoeddodd y Prif Ystadegydd [ddiweddariad](#) yn esbonio'r ffynonellau data marwoldeb gwahanol ar gyfer COVID-19 yng Nghymru, er mwyn helpu pobl i ddehongli'r data.

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020: Ffôn

Dechreuodd y broses o gynnal yr Arolwg Cenedlaethol dros y ffôn yn hytrach nag wyneb yn wyneb ar 24 Ebrill. Arolwg hapsampl sy'n para tua 20 munud yw hwn a chaiff ei gynnal gydag ymatebwyr blaenorol i'r Arolwg Cenedlaethol a gytunodd y gellid ailgysylltu â nhw ar gyfer ymchwil bellach. Y nod yw cynnal 1,000 o gyfweiliadau'r mis ac mae'r cyfraddau ymateb cynnar yn addawol.

Mae'r arolwg yn canolbwyntio ar bynciau sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol, e.e. apwyntiadau meddyg teulu, gofal cymdeithasol, addysg, cydlyniant cymunedol, llesiant,

unigrwydd, newidiadau mewn statws gweithio, ymdopi â biliau/rhent/morgais, Credyd Cynhwysol, parseli bwyd a thlodi bwyd.

Bwriedir cyhoeddi canlyniadau gwaith maes pob mis erbyn diwedd y mis canlynol, felly disgwylir y canlyniadau cyntaf erbyn diwedd mis Mehefin.

Caiff y cwestiynau eu diweddarau bob mis. Rydym wedi gofyn i dimau polisi roi gwybod i ni os hoffent ychwanegu cwestiynau, ac mae croeso i chi gysylltu drwy e-bostio arolygon@llyw.cymru os oes gennych ddi-ddordeb.

Yr economi a'r farchnad lafur

Rydym wedi parhau i ddiweddarau [ystadegau economaidd allweddol](#) bob mis yn ogystal â datganiadau arferol eraill, megis [proffiliau marchnad lafur rhanbarthol](#), [dangosyddion allbynnau tymor-byr](#) a'r [cynnyrch domestig gros rhanbarthol](#). Mae ein [dangosfwrdd Economi Cymru mewn rhifau](#) wedi cael ei ddiweddarau hefyd.

Mae'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi blog](#) sy'n sôn am ba effeithiau y gall COVID-19 eu cael ar ystadegau'r farchnad lafur. Rydym yn ymchwilio i ba ffynonellau data eraill y gallwn eu hymgorffori yn ein datganiadau marchnad lafur arferol er mwyn creu darlun o Gymru sydd mor gyfredol â phosibl.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

Addysg

Ysgolion

Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi'r prif ddata o'r [cyfrifiad ysgolion ym mis Ionawr 2020](#). Cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi'n gynharach na'r amser cyhoeddi hanesyddol ym mis Gorffennaf er mwyn cefnogi'r gwaith o ddeall effaith COVID-19 ar leoliadau awdurdod lleol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r gyfres lawn o daenlenni Open Document a thablau StatsCymru sydd fel arfer yn cyd-fynd â'r allbwn hwn erbyn 11 Mehefin.

Rydym bellach yn cyhoeddi datganiad ystadegol wythnosol ar [bresenoldeb mewn lleoliadau awdurdod lleol](#) er mwyn monitro faint o blant (gan gynnwys plant agored i niwed) a staff sy'n mynychu'r lleoliadau hyn yn ystod y pandemig.

Addysg drawsbynciol ac ôl-16

Ym mis Mawrth, gwnaethom gyhoeddi ein hystadegau chwarterol diweddaraf ar [raglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd](#) a oedd yn cynnwys data terfynol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19. Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi ystadegau ar [gyrchfannau](#) dysgwyr mewn addysg ôl-16 ym mlwyddyn academiaidd 2016/17 yn seiliedig ar ddata cysylltiedig o'r Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol. Gwnaethom hefyd gyhoeddi ein datganiad ystadegol blynyddol ar [lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio](#) ar gyfer 2019.

Gan mai gwaith dadansoddi ac ystadegau sy'n ymwneud â COVID-19 yw'r flaenoriaeth ar hyn o bryd o ran y defnydd o'n hadnoddau, rydym wedi penderfynu gohirio neu ganslo nifer o gyhoeddiadau, sef:

- Staff mewn sefydliadau addysg bellach: mis Awst 2018 i fis Gorffennaf 2019 (wedi'i ohirio)
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET): 2019 (wedi'i ganslo)
- Ystadegau addysg allweddol, 2019 (wedi'i ganslo)

Roedd ein cyhoeddiad NEET sydd wedi'i ganslo i fod i gynnwys diweddariad i'n mesur NEET chwarterol yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Byddwn yn cyhoeddi'r diweddariad hwn gyda'r ffigurau chwarterol diweddaraf a'r diweddariad blynyddol i'n prif fesur ym mis Gorffennaf 2020.

Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru.

Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth sydd gennych ar y bwletinau presennol, neu'r hyn yr hoffech ei weld yn y dyfodol. Cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i'r blwch post ar gyfer [Ystadegau ar Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr](#).

Tai

Allbynnau ystadegol tai

Yng ngoleuni sefyllfa bresennol y Coronafeirws (COVID-19), rydym wedi adolygu gweithgareddau i gasglu data am dai a oedd ar ddod a chyhoeddiadau cynlluniedig ac rydym wedi penderfynu gohirio'r rhan fwyaf o'r casgliadau data tai am y tro. Mae datganiadau diweddar a hysbysiadau gohirio ar gael o'r [wefan Ystadegau ac Ymchwil](#).

Amcangyfrifon o'r angen a'r galw am dai

Roeddem i fod i gyhoeddi ffigurau newydd am yr angen am dai ychwanegol yn seiliedig ar 2019 ar 20 Mai 2020. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei ohirio er mwyn caniatáu amser i ystyried goblygiadau'r amcangyfrifon canol blwyddyn diweddaraf o'r boblogaeth (a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 6 Mai) ar gyfer yr amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol.

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 (ACTC)

Ym mis Ebrill gwnaethom gyhoeddi [amcangyfrifon tlodi tanwydd ardaloedd lleol: Ebrill 2017 i Fawrth 2018](#). Mae sefyllfa bresennol y Coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar lefelau ein hadnoddau a'n blaenoriaethau. O ganlyniad rydym wedi gorfod aros i gyhoeddi ein hadroddiadau cynlluniedig sy'n weddill a bydd oedi wrth greu'r set o ddata ACTC nad yw'n

ddatgelol a fydd ar gael ar Archif Data'r DU. Rydym yn bwriadu aildechrau'r gwaith ar hyn unwaith y bydd galwadau eraill yn tawelu. Mae gennym hefyd lai o gapasiti i ymdrin â cheisiadau am ddata o ganlyniad i waith dadansoddol ar gyfer COVID-19, felly byddwch yn amyneddgar os ydych am gael gafael ar ein data. Rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â ni drwy'r [blwch post](#) gydag unrhyw ymholiadau neu geisiadau ar hyn o bryd gan fod y staff sydd ar gael yn amrywio.

Rydym yn parhau i gynnig cymorth i'r timau canlynol er bod llai o gapasiti gennym:

- rydym yn gweithio gyda Thîm Safon Ansawdd Tai Cymru i ddarparu data o'r arolwg a chymorth dadansoddol ar gyfer eu gwaith i ddatblygu Safon Ansawdd Tai Cymru ar ôl 2020; rydym yn gweithio gyda'r Tîm Modelau Arloesol a Datgarboneiddio Tai i ddatblygu a chynnal rhaglen o weithgareddau i ddatgarboneiddio pob cartref yng Nghymru erbyn 2050; rydym yn gweithio gyda'r tîm polisi tlodi tanwydd ar wella/ehangu'r ystadegau ar Dlodi Tanwydd a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru (y mae adroddiadau BEIS yn dylanwadu arnynt).

Iechyd

Cyhoeddiadau

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar y [wefan ystadegau ac ymchwil](#).

Am ragor o wybodaeth, [e-bostiwch](#).

Gweithlu practis cyffredinol

[Datganiad ystadegol arbrofol newydd a gyhoeddwyd ar weithlu practis cyffredinol](#), gan ddefnyddio'r set gyntaf o ddata a dynnwyd o system Adrodd Genedlaethol newydd Cymru ar gyfer y Gweithlu.

Gweithgarwch y GIG

Ar ôl llacio targedau perfformiad a gohirio rhai casgliadau data dros dro, dim ond gwybodaeth am weithgarwch GIG Cymru sydd wedi'i chynnwys yn y datganiad ystadegol misol am weithgarwch a pherfformiad y GIG. Yn benodol, mae hyn yn golygu derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, galwadau brys i'r gwasanaethau ambiwlans a chleifion sy'n dechrau triniaeth ar gyfer canser. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad nac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi, oedi wrth drosglwyddo gofal, llwybrau sydd ar gau nac atgyfeiriadau i gleifion allanol. Disgwylir y bydd y datganiad yn parhau ar y ffurf hon nes cyfnod adrodd mis Hydref o leiaf. [Mae'r cyhoeddiad diweddaraf ar gael](#).

Gwasanaethau cymdeithasol

O ganlyniad i sefyllfa bresennol y Coronafeirws (COVID-19) ac o ran blaenoriaethau ac adnoddau, mae'r holl gasgliadau data cyfanredol oddi wrth adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi cael eu gohirio ar gyfer 2019-20. Mae'r gwaith o gasglu data ar lefel unigol (Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth) yn cael ei adolygu ar gyfer 2019-20 ac, os bydd yn mynd rhagddo, mae'n bosibl y bydd yn hwyr.

Gwyddor Data ac Ymchwil Data Gweinyddol

Ar 1 Ebrill sefydlwyd uned gwyddor data newydd yn Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn cynnwys yr Uned Ymchwil Data Gweinyddol (ADRU-W) bresennol. Bydd yr uned yn datblygu'r gallu i arbrofi gydag adnoddau a thechnegau arloesol ac yn defnyddio sawl math gwahanol o ddata i feithrin gwell dealltwriaeth er mwyn helpu i lywio'r gwaith o greu polisiau a sicrhau canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru. Bydd yr uned hefyd yn gweithio tuag at sefydlu partneriaeth gwyddor data yng Nghymru. Bydd y bartneriaeth yn cydweithio ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r byd academiaidd i nodi cyfleoedd a chyfeiriad strategol a fyddai'n rhoi Cymru ar y blaen o ran gallu data a'u defnydd.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch unedgwyddordata@llyw.cymru neu UYDG.Cymru@gov.wales

Arolwg Cenedlaethol

canlyniadau 2019-20

Rydym wrthi'n paratoi canlyniadau 2019-20 i'w cyhoeddi ar hyn o bryd. Bydd y datganiad yn cynnwys y prif ganlyniadau, ffeithluniau, dangosydd canlyniadau diweddaraf a thablau dangosydd CD wedi'u diweddarau.

Cyhoeddiadau ers y diweddariad chwarterol diwethaf

Cyhoeddwyd dau fwletin:

- [Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol](#) – 19 Mawrth 2020
- [Ailgylchu, a bagiau siopa](#) – 31 Mawrth 2020
- [Ble a phryd y mae pobl yn dysgu'r Gymraeg](#) – 28 Ebrill 2020

Ar 26 Mawrth 2020, gwnaethom gyhoeddi cyfres o adroddiadau ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â dangosyddion CD:

- [Themâu allweddol sy'n gysylltiedig â detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cymru](#)
- [Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol?](#)
- [Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol?](#)
- [Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol?](#)
- [Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar yr ardal lle maent yn byw?](#)
- [Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol?](#)
- [Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg?](#)

Gellir dod o hyd i'r tablau a'r siartiau sy'n cwmpasu holl bynciau'r arolwg, a blynyddoedd blaenorol, ar ein [Dangosydd canlyniadau](#). Os oes gennych unrhyw gwestiynau, [e-bostiwch ni](#).

Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Cyhoeddwyd MALIC 2019 ar 27 Tachwedd 2019, ac ar y diwrnod hwnnw gwnaethom ddiweddarau ein [Hadroddiad Canlyniadau](#), [data StatsCymru](#) a'r [adnodd rh yngweithiol](#). Eleni rydym yn parhau i gyhoeddi allbynnau dilynol ar gyfer MALIC 2019, a hyd yn hyn rydym wedi cyhoeddi:

- Data fesul oedran ar amddifadedd incwm a chyflogaeth, a dangosyddion absenoldeb mynych.
- Cyfansymiau amddifadedd incwm a chyflogaeth ar gyfer ystod o ardaloedd daearyddol a grwpiau oedran. Mae'r data hyn yn gymesur â'r rhifiaduron a ddefnyddir wrth gyfrifo cyfradd amddifadedd incwm a chyflogaeth.

Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf byddwn yn cyhoeddi data sy'n sail i'r dadansoddiad o amddifadedd dwfn gyda chanllawiau ar sut i'w defnyddio ac, yn ddiweddarach yn yr haf, byddwn yn cyhoeddi diweddariad i'r canllawiau ar ddangosyddion a dadansoddiad amddifadedd sy'n ymwneud â phlant.

Cyfeiriwch at "[MALIC 2019 amserlen o allbynnau](#)" ar gyfer rhestr lawn o gyhoeddiadau MALIC yn 2019, gan gynnwys yr hyn sydd i ddod.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru i danysgrifio.

Trafnidiaeth

Nododd Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd fod problem gyda'i hamcangyfrifon o deithiau trên yng Nghymru ac, o ganlyniad, mae ein cyhoeddiadau [defnydd gorsafoedd rheilffordd](#) a [trafnidiaeth rheilffyrdd](#) wedi cael eu tynnu oddi ar y wefan nes y caiff y broblem ei datrys.

Ar 18 Mawrth, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad blynyddol ar [gerbydau gwasanaeth cyhoeddus \(bysiau a thacsis\)](#).

Y Gymraeg

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith wedi cael ei ohirio oherwydd y coronafeirws yng nghanol mis Mawrth 2020. Bwriedir i'r arolwg redeg o Orffennaf 2019 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Dosbarthwyd yr arolwg i siaradwyr Cymraeg a gafodd eu darganfod drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r Arolwg Cenedlaethol bellach yn cael ei weinyddu dros y ffôn. Felly, cytunwyd i ohirio'r Arolwg Defnydd Iaith. Bydd y data a gasglwyd yn ystod naw mis cyntaf y gwaith maes yn parhau i gael ei ddadansoddi ac rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canlyniadau ar lefel Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar 31 Mawrth, cyhoeddwyd [Canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth am y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn o fis Ionawr 2019 i fis Rhagfyr 2019](#).

Ar 28 Ebrill, cyhoeddwyd adroddiad yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 ar ['Ble a phryd y mae pobl yn dysgu'r Gymraeg'](#).

Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

Pwnc-benodol

[Cysylltiadau ar gyfer ystadegau](#)

Twitter 

[YstadegauCymru](#)

Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

[Newyddion a hysbysiadau](#)

Ymholiadau gweinyddol

E-bost: gweinydduggd@llyw.cymru